Multi Agency Public Protection Arrangements

# MAPPA Gwent Adroddiad Blynyddol 2024 i 2025



Protecting the public for 25 years

# Cyflwyniad

Fel Cyfarwyddwr Gwasanaeth Prawf Rhanbarthol Cymru, mae'n fraint fawr cyfrannu at Adroddiad Blynyddol Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd (MAPPA) 2024-2025.

Mae MAPPA yn dod â'r Gwasanaeth Prawf, yr Heddlu, y Gwasanaeth Carchardai, ac asiantaethau eraill fel Tai, Awdurdodau Lleol, Cyfiawnder Ieuenctid a Gwasanaethau Iechyd, at ei gilydd i ddiogelu'r cyhoedd a rheoli risgiau sy'n cael eu hachosi gan droseddwyr difrifol. Wrth galon y Gwasanaeth Prawf mae ein hymrwymiad i gydweithio ag asiantaethau eraill. Drwy weithio gyda'n gilydd, ein nod yw cryfhau ein dull gweithredu a chael effaith ystyrlon ar gadw ein cymunedau'n ddiogel.

Eleni, cyflwynwyd nifer o newidiadau i'r Gwasanaeth Prawf, gyda nod clir o roi pwys mawr ar ddiogelu'r cyhoedd a galluogi gwasanaethau i wneud pob ymdrech ar ran y rheini sydd yn y ddalfa ac yn y gymuned sy'n peri'r risg fwyaf o ymddygiad rhywiol a threisgar. Mae Byrddau Rheoli Strategol MAPPA yn hollbwysig o ran dal pob asiantaeth i gyfrif am effeithiolrwydd trefniadau gweithio amlasiantaeth, a rhoi sicrwydd i ddioddefwyr ac aelodau'r cyhoedd o ymrwymiad MAPPA i leihau aildroseddu a niwed.

Gyda MAPPA yn nodi ei bumed flwyddyn ar hugain, mae'n dangos llwyddiant ac ymroddiad yr holl asiantaethau cysylltiedig. Mae'r adroddiad hwn yn darparu ystadegau o'r flwyddyn ddiwethaf, gan gyflwyno nifer yr unigolion sy'n cael eu rheoli o dan MAPPA a sut rydym yn cyflawni ein dyletswydd i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol y rheini sy'n cael eu dyfarnu'n euog o droseddau difrifol. Gwelwyd cynnydd yn MAPPA eleni, sy'n adlewyrchu ein haddewid i'r gymuned y byddwn yn gwneud pob ymdrech i sicrhau gwelliannau a datblygu diwylliant o ddysgu.

Rydym yn gwerthfawrogi holl gyfraniadau ein rhanddeiliaid, sy'n hanfodol i gadw cymunedau'n ddiogel drwy reoli risg yn drwyadl.



**Nicola Davies- Cyfarwyddwr Gwasanaeth Prawf Rhanbarthol Cymru, Gwasanaeth Prawf Cymru**

Fel Cadeirydd Bwrdd Rheoli Strategol Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer

Amddiffyn y Cyhoedd (MAPPA) Gwent, mae’n fraint cael cyflwyno Adroddiad Blynyddol 2024/25. Mae MAPPA yn parhau i chwarae rhan hanfodol wrth amddiffyn y cyhoedd drwy gydlynu’r gwaith o reoli unigolion sy'n peri risg o niwed difrifol yn effeithiol, drwy gydweithio â’r heddlu, y gwasanaeth prawf, gwasanaethau carchardai, a'n partneriaid diogelu ehangach.

Gwelwyd cynnydd a her eleni. Mae newidiadau polisi cenedlaethol wedi golygu bod yn rhaid i ni addasu’n gyflym, yn enwedig mewn ymateb i ddisgwyliadau sy’n esblygu o ran asesu risg a rhannu gwybodaeth. Ar yr un pryd, rydyn ni wedi wynebu pwysau parhaus o ran adnoddau - o safbwynt staffio a mynediad at wasanaethau arbenigol - sydd wedi profi ein gwydnwch a’n creadigrwydd. Mae cydlyniant cymunedol yn parhau i fod yn flaenoriaeth, ac rydyn ni wedi gweithio’n galed i sicrhau bod ein hymyriadau’n gymesur, yn dryloyw, ac yn sensitif i bryderon lleol.

Er gwaethaf yr heriau hyn, mae ymrwymiad ein partneriaid MAPPA wedi parhau’n ddiwyro. Rydyn ni wedi parhau i gyflawni cynlluniau rheoli risg cadarn ac wedi cryfhau ein hymgysylltiad â mudiadau'r sector gwirfoddol a chymunedol i gefnogi ail-integreiddio a lleihau aildroseddu.

Gan edrych ymlaen at 2025/26, bydd ein pwyslais ar wella atebolrwydd ar draws pob lefel o arferion MAPPA, a bod MAPPA yn cael ei lywodraethu a’i ddogfennu’n well. Byddwn yn gwella cyfleoedd ar gyfer dysgu ar y cyd - drwy hyfforddiant ar y cyd, fforymau ymarfer myfyriol, a gwell mewnwelediadau data - er mwyn sicrhau bod gan bob asiantaeth yr adnoddau i ymateb i risg gymhleth mewn ffordd gyson a gwybodus. Rydyn ni hefyd wedi ymrwymo i gynyddu tryloywder gyda'n cymunedau a'n rhanddeiliaid, gan atgyfnerthu ymddiriedaeth yn y gwaith a wnawn.



**Cyflwyniad y Cadeirydd – Victoria Harris, Pennaeth Uned Gyflawni’r Gwasanaeth Prawf (PDU) Gwent**

# Beth yw MAPPA?

## Cefndir MAPPA

MAPPA (Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd) yw'r trefniadau i reoli'r risg a achosir gan y troseddwyr rhyw, troseddwyr treisgar a therfysgwyr mwyaf difrifol (troseddwyr MAPPA) dan ddarpariaethau adrannau 325 i 327B Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003.

Maent yn dod â'r Gwasanaethau Heddlu, Prawf a Charchardai ym mhob un o'r 42 Ardal yng Nghymru a Lloegr at ei gilydd i ffurfio Awdurdod Cyfrifol MAPPA.

Mae gan nifer o asiantaethau eraill ddyletswydd i gydweithredu â'r Awdurdod Cyfrifol. Mae'r rhain yn cynnwys y Gwasanaethau Cymdeithasol, Gwasanaethau Iechyd, Timau Troseddau Ieuenctid, yr Adran Gwaith a Phensiynau ac Awdurdodau Tai ac Addysg Lleol.

Mae Byrddau Rheoli Strategol Lleol sy'n cynnwys cynrychiolwyr uwch o bob Awdurdod Cyfrifol ac asiantaeth sydd â dyletswydd i gydymffurfio'n gyfrifol am gyflenwi MAPPA o fewn eu hardaloedd unigol. Mae'n ofynnol hefyd i'r Awdurdod Cyfrifol benodi dau Ymgynghorydd Lleyg i eistedd ar bob Bwrdd Rheoli Strategol MAPPA.

Aelodau o'r cyhoedd a benodir gan y Gweinidog yw Ymgynghorwyr Lleyg heb unrhyw gysylltiad â'r gwaith o reoli troseddwyr MAPPA. Maent yn sylwebyddion annibynnol ond gwybodus; maent yn gallu gofyn cwestiynau efallai na fyddai'r gweithwyr proffesiynol sy'n agos iawn at y gwaith yn ystyried eu codi. Maent hefyd yn dod â'u dealltwriaeth a'u canfyddiadau nhw o'r gymuned leol i'r Bwrdd Rheoli Strategol (mae'n rhaid bod ganddynt gysylltiadau cryf â'r gymuned leol a'u bod yn byw yno).

## MAPPA '25

Ymgyrch yw MAPPA '25 i nodi 25ain mlwyddiant y ddeddfwriaeth a gyflwynodd gydweithredu amlasiantaeth gorfodol wrth reoli'r rhai sydd wedi'u dyfarnu'n euog o gyflawni troseddau treisgar a rhywiol.

Nodau ymgyrch MAPPA '25 yw;

- Cynyddu ymwybyddiaeth o MAPPA, a hyder ynddynt, ar draws ystod eang o asiantaethau, ar bob lefel o ymarferwyr rheng flaen i arweinwyr uwch.
- Ymgysylltu â'r rhai sydd wedi'u heffeithio'n uniongyrchol gan MAPPA, gan gynnwys dioddefwyr a'r rhai sy'n ddarostyngedig i reolaeth MAPPA.
- Gwella ymarfer MAPPA ar draws pob asiantaeth.
- Archwilio i themâu sy'n dod i'r amlwg mewn perthynas â diogelu'r cyhoedd ac annog buddsoddi mewn MAPPA yn y dyfodol gan bob rhanddeiliad perthnasol.

Ym mis Chwefror, cynhaliodd Tîm Cenedlaethol MAPPA y digwyddiad ar-lein cyntaf. Teitl y digwyddiad oedd "O ble y daeth MAPPA a pham yr oeddem eu hangen" ac roedd yn cynnwys trafodaeth panel gyda'r Athro Emeritws Hazel Kemshall a'r Ditectif Brif Arolygydd Ymddeoledig Tim Bryan. Roedd y ddau ynghlwm â datblygu'r trefniadau ddechrau'r mileniwm. Roedd dros 800 o bobl yn bresennol yn y digwyddiad, ac ers hynny, mae dros 1,700 o bobl wedi ei wylio, gan brofi'n boblogaidd gyda gweithwyr proffesiynol o awdurdod cyfrifol, asiantaethau sydd â dyletswydd i gydweithredu ac asiantaethau cysylltiol, a'r sector preifat sy'n gweithio gydag unigolion MAPPA, a oedd yn awyddus i ddysgu mwy am hanes MAPPA a'r rhesymau pam y maent yn dal i fod yn hollbwysig hyd heddiw.

Mae'r rhan fwyaf o'r digwyddiadau wedi/yn cael eu cynnal yn 2025-26. Gan hynny, byddant yn derbyn sylw yn adroddiad blynyddol y flwyddyn nesaf.

## Sut mae'r MAPPA'n gweithio

Penderfynir pa droseddwyr sy'n gymwys ar gyfer MAPPA, ac mae'r asiantaethau'n rhannu gwybodaeth amdanynt er mwyn bwydo asesiadau a chynlluniau risg y rhai sydd yn eu rheoli neu eu goruchwylio.

Yn y rhan fwyaf o achosion, dyna pa mor bell y mae MAPPA'n ymestyn, ond mewn rhai achosion, penderfynir bod angen goruchwyliaeth uwch a rheolaeth amlasiantaethol strwythuredig. Mewn achosion felly, cynhelir cyfarfodydd MAPPA rheolaidd a fynychir gan ymarferwyr o'r asiantaethau perthnasol.

Y mae 4 categori o unigolion sy'n gymwys ar gyfer MAPPA:

- **Categori 1** – maent yn ddarostyngedig i ofynion hysbysu troseddwyr rhyw;
- **Categori 2** – troseddwyr treisgar yn bennaf sydd wedi eu dedfrydu i 12 mis neu fwy yn y carchar neu i orchymyn ysbyty;
- **Categori 3** – troseddwyr nad ydynt yn gymwys dan gategori 1, 2 neu 4, ond sydd ar y pryd yn achosi risg o niwed difrifol.
- **Categori 4** – troseddwyr sydd wedi'u heuogfarnu o droseddau terfysgaeth neu derfysgwyr posibl.

Ni chynhwysir data am Gategori 4 yn yr adroddiad hwn oherwydd materion diogelu data sy'n ymwneud â niferoedd isel. Bydd y data hwn yn cael ei gydgrynhoi a'i gyhoeddi'n genedlaethol.

Y mae tair lefel o reolaeth er mwyn sicrhau y defnyddir adnoddau yn yr achosion lle y mae mwyaf eu hangen; fel arfer y rhai lle y mae mwy o berygl o niwed difrifol.

- **Lefel 1** yw lle mae'r troseddwr yn cael ei reoli gan yr asiantaeth arweiniol drwy gyfnewid gwybodaeth a darparu **cymorth amlasiantaeth** yn ôl yr angen ond heb gyfarfodydd MAPPA ffurfiol;
- **Lefel 2** yw lle mae angen cyfarfodydd MAPPA ffurfiol i reoli'r troseddwr.
- **Lefel 3** yw lle mae'r cynlluniau rheoli risg yn gofyn am bresenoldeb ac ymrwymiad adnoddau ar lefel uwch mewn cyfarfodydd MAPPA.

Cefnogir MAPPA gan ViSOR. System TG genedlaethol yw hon i helpu i reoli troseddwyr sy'n cyflwyno risg ddifrifol o niwed i'r cyhoedd. Mae defnyddio ViSOR yn ei gwneud yn haws rhannu cudd-wybodaeth ar draws sefydliadau a throsglwyddo gwybodaeth allweddol yn ddiogel pan fydd troseddwyr risg uchel yn symud, gan wella unrhyw fesurau diogelu'r cyhoedd. Mae ViSOR yn golygu bod staff yr Heddlu, y Gwasanaeth Prawf a Charchardai'n gallu gweithio ar yr un system TG, gan wella ansawdd a phrydlondeb asesiadau risg ac ymyriadau i atal troseddu.

Cyhoeddir pob adroddiad MAPPA o Gymru a Lloegr ar-lein ar: www.gov.uk

# Ystadegau MAPPA

**Troseddwyr cymwys am MAPPA ar 31 Mawrth 2025**

| | Categori 1: Yn ddarostyngedig i ofynion hysbysu troseddwyr rhyw | Categori 2: Troseddwyr treisgar | Categori 3: Troseddwyr peryglus eraill | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Lefel 1 | 1069 | 213 | - | 1282 |
| Lefel 2 | 4 | 8 | 12 | 24 |
| Lefel 3 | 0 | 1 | 2 | 3 |
| Cyfanswm | 1073 | 222 | 4 | 1309 |

**Troseddwyr cymwys am MAPPA yn Lefelau 2 a 3 yn ôl categori (cyfanswm blynyddol)**

| | Categori 1: Yn ddarostyngedig i ofynion hysbysu troseddwyr rhyw | Categori 2: Troseddwyr treisgar | Categori 3: Troseddwyr peryglus eraill | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Lefel 2 | 29 | 68 | 89 | 186 |
| Lefel 3 | 1 | 2 | 2 | 5 |
| Cyfanswm | 30 | 70 | 91 | 191 |

| | |
|---|---|
| **Troseddwyr Categori 1 a gafodd rybudd am dorri gofynion hysbysu** | 11 |
| **Troseddwyr Categori 1 a gafodd euogfarn am dorri gofynion hysbysu** | 31 |

| | |
|---|---|
| **Troseddwyr Categori 1 sydd â'u hysbysiad gydol oes wedi'i ddiddymu ar gais** | 1 |

**Gorchmynion cyfyngol ar gyfer troseddwyr Categori 1**

| | |
|---|---|
| Gorchymyn Atal Niwed Rhywiol | 83 |
| Gorchmynion Atal Niwed Rhywiol gyda chyfyngiadau teithio tramor | 0 |
| Gorchymyn Hysbysu | 1 |

| | |
|---|---|
| **Nifer y bobl a ddaeth yn destun gofynion hysbysu troseddwyr rhyw ar ôl torri Gorchymyn Perygl Rhywiol** | 0 |

**Troseddwyr Lefelau 2 a 3 a ddychwelwyd i'r ddalfa**

| Dychwelwyd i'r ddalfa am dorri amodau eu trwydded | Categori 1: Yn ddarostyngedig i ofynion hysbysu | Categori 2: Troseddwyr treisgar | Categori 3: Troseddwyr peryglus eraill | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Lefel 2 | 5 | 15 | 18 | 38 |
| Lefel 3 | 2 | 0 | 0 | 2 |
| Cyfanswm | 7 | 15 | 18 | 40 |

| Torri Gorchymyn Atal Niwed Rhywiol | |
|---|---|
| Lefel 2 | 11 |
| Lefel 3 | 1 |
| Cyfanswm | 12 |

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm nifer yr unigolion sy'n ddarostyngedig i ofynion hysbysu troseddwyr rhyw fesul 100,000 o'r boblogaeth** | 200 |

Mae'r ffigur hwn wedi'i gyfrifo gan ddefnyddio'r amcangyfrifon poblogaeth canol 2024, a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar 30 Gorffennaf 2025, ac eithrio plant dan ddeg oed.

# Esbonio’r tablau ystadegol

## Cefndir MAPPA

Mae cyfanswm y troseddwyr sy’n gymwys ar gyfer MAPPA, yn ôl categori, yn adlewyrchu’r darlun ar 31 Mawrth 2025 (h.y. maent yn rhoi cipolwg). Mae gweddill y data’n ymwneud â’r cyfnod o 1 Ebrill 2024 i 31 Mawrth 2025.

**(a) Troseddwyr cymwys MAPPA** – mae yna unigolion sy’n gymwys ar gyfer trefniadau rheoli MAPPA yn ôl y diffiniad cyfreithiol oherwydd eu bod wedi cyflawni troseddau rhywiol, treisgar neu derfysgol penodol, neu oherwydd eu bod yn achosi risg o niwed difrifol. Mae’r rhan fwyaf yn cael eu rheoli ar Lefel 1 yn hytrach na thrwy gyfarfodydd MAPPA ffurfiol. Mae’r ffigurau hyn yn cynnwys dim ond y troseddwyr sy’n gymwys ar gyfer MAPPA ac sy’n byw yn y gymuned. Nid ydynt yn cynnwys rhai sydd yn y carchar neu dan glo o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl.

**(b) Yn ddarostyngedig i Ofynion Hysbysu Troseddwyr Rhyw** – y rhai hynny sy'n gorfod rhoi eu henwau, eu cyfeiriadau a’u manylion personol eraill i’r heddlu, a hefyd rhoi gwybod am unrhyw newid wedyn (“gofyniad hysbysu” y gelwir hyn). Mae’r troseddwyr hyn yn cael eu hasesu a’u rheoli gan yr heddlu. Gallant hefyd gael eu rheoli gan y gwasanaeth prawf, cyfiawnder ieuenctid neu’r gwasanaeth iechyd os ydynt yn destun trwydded neu orchymyn ysbyty. Mae methu â chydymffurfio â’r gofyniad hysbysu’n drosedd sy’n arwain at uchafswm cosb o bum mlynedd yn y carchar.

**(c) Troseddwyr Treisgar** – mae’r categori hwn yn cynnwys troseddwyr treisgar a ddedfrydwyd i garchar neu i’w cadw dan glo am 12 mis neu fwy, neu i’w cadw o dan orchymyn ysbyty. Mae hefyd yn cynnwys nifer fach o droseddwyr rhyw nad ydynt yn gymwys i gael eu cofrestru. Mae’r troseddwyr yn cael eu hasesu a’u rheoli gan y Gwasanaeth Prawf, y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid neu’r Gwasanaethau Iechyd Meddwl.

**(ch) Troseddwyr Peryglus Eraill** – troseddwyr nad ydynt yn gymwys o dan y categorïau cymwys ar gyfer MAPPA eraill ond sydd wedi cyflawni trosedd sy’n dangos eu bod yn cyflwyno risg o niwed difrifol sydd angen ei reoli drwy gyfarfodydd MAPPA. Mae’r troseddwyr hyn yn cael eu hasesu a’u rheoli gan yr asiantaeth sy’n bennaf gyfrifol amdanynt.

**(d) Terfysgwyr a Therfysgwyr Posibl** – troseddwyr sy’n ddarostyngedig i ofynion hysbysu troseddwyr; unigolion sydd wedi'i heuogfarnu o derfysgaeth neu droseddau sy’n gysylltiedig â therfysgaeth a ddedfrydwyd i garchar neu i’w cadw dan glo am 12 mis neu fwy, neu i’w cadw o dan orchymyn ysbyty; a’r rhai sydd wedi cyflawni trosedd ac a allai fod mewn perygl o fod yn rhan o weithgarwch sy’n gysylltiedig â therfysgaeth. Mae’r troseddwyr hyn yn cael eu hasesu a’u rheoli gan yr Heddlu Gwrthderfysgaeth ac Adran Diogelwch Cenedlaethol y Gwasanaeth Prawf.

**(dd) Torri amodau trwydded** – bydd troseddwyr a ryddheir i'r gymuned yn dilyn cyfnod yn y carchar yn cael eu rheoli dan drwydded gydag amodau (dan oruchwyliaeth y Gwasanaeth Prawf). Os torrir yr amodau hyn, bydd y Gwasanaeth Prawf yn cymryd camau yn erbyn y troseddwyr, ac mae'n bosib y cânt eu galw'n ôl i'r carchar.

**(e) Gorchymyn Atal Niwed Rhywiol (gan gynnwys unrhyw gyfyngiadau ychwanegol ar fynd dramor).** Bwriad Gorchmynion Atal Niwed Rhywiol a Gorchmynion Atal Niwed Rhywiol interim yw diogelu’r cyhoedd rhag troseddwyr sydd wedi’u heuogfarnu o drosedd rywiol neu dreisgar sy’n cyflwyno perygl o niwed rhywiol i’r cyhoedd drwy osod cyfyngiadau a/neu rwymedigaethau

cadarnhaol ar eu hymddygiad. Mae'n ofynnol i'r troseddwr hysbysu'r heddlu am ei fanylion (fel y nodir yn Adran 2 o Ddeddf 2003) drwy gydol cyfnod y gorchymyn.

Rhaid i'r llys bod yn fodlon, ar gydbwysedd tebygolrwydd, bod gorchymyn yn ofynnol er mwyn diogelu'r cyhoedd (neu aelodau penodol o'r cyhoedd) yn y DU, neu blant neu oedolion bregus (neu unrhyw blant neu oedolion bregus penodol) dramor, rhag niwed rhywiol gan y troseddwr. Yn achos gorchymyn a wneir ar gais rhydd gan brif swyddog, yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol (ATC), yr Heddlu Trafnidiaeth Brydeinig (HTP) neu Heddlu'r Weinyddiaeth Gyfiawnder (HWG), rhaid i'r prif swyddog/ATC/HTP/HWG fedru dangos bod y troseddwr wedi ymddwyn yn y fath modd ers ei euogfarn fel bod angen y gorchymyn.

Y cyfnod lleiaf ar gyfer gorchymyn llawn yw 5 mlynedd. Y terfyn oed isaf yw 10, sef yr oedran cyfrifoldeb troseddol, ond pan mae diffynnydd o dan 18 oed, dylid ond ystyried cais am orchymyn mewn amgylchiadau eithriadol.

**(f) Gorchymyn Hysbysu** – mae hwn yn gorfodi troseddwyr rhyw sydd wedi'u cael yn euog o droseddau rhywiol cymwys mewn gwlad dramor i gofrestru gyda'r heddlu, er mwyn diogelu'r cyhoedd yn y DU rhag y perygl a gyflwynir ganddynt. Gall yr heddlu yng Nghymru a Lloegr gyhoeddi gorchymyn hysbysu'n uniongyrchol i droseddwyr sydd eisoes yn y DU, neu sy'n bwriadu dod i'r DU, sydd yn gorfod hysbysu o fewn tri diwrnod ar ôl ei dderbyn. Mae gan unigolion hawl i apelio yn erbyn hysbysiad.

**(ff) Gorchymyn Perygl Rhywiol (gan gynnwys unrhyw gyfyngiadau ychwanegol ar fynd dramor)** – Disodlodd y Gorchymyn Perygl Rhywiol (GPRh) y Gorchymyn Perygl Niwed Rhywiol (GPNRh) a gellir ei wneud mewn perthynas ag unigolyn sydd heb ei euogfarnu ar gyfer trosedd rywiol neu dreisgar (neu unrhyw drosedd arall), ond sy'n cyflwyno perygl o niwed rhywiol.

Gellir gwneud y GPRh yn y llys ynadon ar gais, gan yr heddlu, ATC, HTP neu HWG pan mae unigolyn wedi cyflawni gweithred o natur rywiol ac mae'r llys yn fodlon bod yr unigolyn yn cyflwyno perygl o niwed i'r cyhoedd yn y DU neu blant neu oedolion agored i niwed dramor.

Gall GPRh wahardd yr unigolyn rhag gwneud unrhyw beth a ddisgrifir ynddo, gan gynnwys mynd dramor, neu osod rhwymedigaethau cadarnhaol arno. Rhaid i unrhyw waharddiad a/neu rwymedigaeth fod yn angenrheidiol i warchod y cyhoedd yn y DU rhag niwed rhywiol, neu yng nghyswllt mynd dramor, gwarchod plant neu oedolion agored i niwed rhag niwed rhywiol.

Disgwylir i unrhyw unigolyn sy'n destun GPRh hysbysu'r heddlu am ei enw a'i gyfeiriad cartref o fewn tri diwrnod ar ôl i'r gorchymyn gael ei wneud, a hysbysu ynghylch unrhyw newidiadau i'r wybodaeth hon o fewn tri diwrnod.

Mae GPRh yn gallu para am ddwy flynedd o leiaf ond heb unrhyw uchafswm, ac eithrio unrhyw gyfyngiadau ar fynd dramor sy'n gallu, lle mae'n berthnasol, para am bum mlynedd ar y mwyaf (ond gall gael ei adnewyddu).

Mae'r safon droseddol o brawf yn parhau i fod yn berthnasol. Gall yr unigolyn sy'n destun y gorchymyn apelio yn ei erbyn a gall yr heddlu neu'r unigolyn dan sylw wneud cais i amrywio, adnewyddu neu ollwng y gorchymyn.

Mae torri GPRh yn drosedd a'r uchafswm cosb yw pum mlynedd yn y carchar. Lle mae unigolyn yn torri ei GPRh, bydd yn dod yn destun gofynion hysbysu llawn.

Mae unigolion sy'n destun GPRh yn cael eu cofnodi ar VISOR, fel Unigolyn Peryglus Posibl (UPP).

**(g) Gofynion hysbysu gydol oes a ddiddymir ar gais** –. Gall troseddwyr cymwys gyflwyno cais i'r heddlu adolygu eu gofynion hysbysu amhenodol. Bydd yr heddlu'n adolygu'r cais ac yn penderfynu a ddylid diddymu'r gofynion hysbysu. Gwneir y penderfyniad hwn ar lefel Uwch-arolygydd. Bydd pobl sy'n parhau i gyflwyno perygl sylweddol yn aros ar y gofrestr am oes, lle bo angen.

Bydd unigolion ond yn dod yn gymwys i ofyn am adolygiad ar ôl bod yn destun gofynion hysbysu amhenodol am o leiaf 15 mlynedd yn achos oedolion, ac 8 mlynedd yn achos ieuenct.

# Tudalen leol

## Cynghorwr Lleyg MAPPA Gwent - Ieuan Watkins

Fel Cynghorwr Lleyg ar gyfer MAPPA yng Ngwent, rydw i wedi cael y fraint o weld ymroddiad a phroffesiynoldeb y rhai sy'n gweithio'n ddiflino i amddiffyn y cyhoedd. Mae Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd (MAPPA) yn parhau i fod yn fframwaith hollbwysig ar gyfer rheoli unigolion sy'n peri risg, ac yng Ngwent, mae eu heffeithiolrwydd wedi'i wreiddio mewn cydweithio cadarn, rhannu gwybodaeth agored, a diwylliant o gydweithio.

Nid yw'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod heb ei heriau. Fel nifer o wasanaethau cyhoeddus, mae partneriaid MAPPA yng Ngwent wedi gweithredu o dan gyllidebau a chyfyngiadau adnoddau tynnach. Eto i gyd, yr hyn sydd wedi sefyll allan yw'r ymrwymiad diwyro i fusnes craidd amddiffyn cymunedau. Er gwaethaf pwysau ariannol, mae asiantaethau'n parhau i flaenoriaethu cydweithio - gan gydnabod na all unrhyw sefydliad unigol reoli risg ar ei ben ei hun. Mae cryfder MAPPA yn ei allu i ddod â'r heddlu, y gwasanaeth prawf, gwasanaethau carchardai, ac ystod eang o bartneriaid statudol a gwirfoddol at ei gilydd i rannu cyfrifoldeb a gweithredu ar y cyd i ddiogelu eraill.

Mae rhannu gwybodaeth yn parhau'n ganolog i'r broses hon. Yng Ngwent, rydw i wedi gweld sut mae cyfathrebu prydlon, perthnasol a thryloyw rhwng asiantaethau yn galluogi dealltwriaeth lawnach o bob achos. Nid yn unig y mae hyn yn cefnogi proses gadarn o gynllunio rheoli risg, ond mae hefyd yn caniatáu ar gyfer ymyrraeth gynnar ac atal. P'un a yw'n trafod tai, iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau, neu bryderon diogelu, mae'r parodrwydd i rannu gwybodaeth a mewnwelediadau'n sicrhau bod penderfyniadau'n wybodus ac yn gymesur.

Mae cynnwys gweithwyr iechyd proffesiynol, gwasanaethau cymdeithasol, darparwyr tai, Canolfannau Gwaith a mudiadau'r trydydd sector yn dod â chyfoeth i'r broses MAPPA. Mae'r safbwyntiau amrywiol hyn yn helpu i siapio ymatebion eang eu cwmpas sy'n mynd i'r afael ag ymddygiad troseddol a'r ffactorau ehangach sy'n dylanwadu ar risg. Hyd yn oed yn wyneb pwysau gweithredol, mae ethos MAPPA yng Ngwent yn parhau i ganolbwyntio ar weithio mewn partneriaeth, datrys problemau ac amddiffyn y cyhoedd.

Fel Cynghorwr Lleyg, fy rôl i yw cynnig goruchwyliaeth annibynnol a phersbectif cymunedol, gan gynrychioli'r cyhoedd yn effeithiol mewn cyfarfodydd Lefel 2 a Lefel 3, adolygu dogfennaeth, a chyfrannu at drafodaethau strategol. Dydw i ddim yn ymarferydd, ond rwy'n ffrind beirniadol – sy'n gofyn cwestiynau, yn cynnig sylwadau, ac yn helpu i sicrhau bod MAPPA yn parhau'n dryloyw ac yn atebol i'r rhai sy'n byw ac yn gweithio yng Ngwent.

I gloi, mae MAPPA yng Ngwent yn parhau i ddangos pŵer partneriaethau. Er bod heriau ariannol a gweithredol yn parhau, ni ddylent - ac nid ydynt – yn tynnu oddi wrth y genhadaeth gyffredin o amddiffyn y cyhoedd. Rwy'n falch o gefnogi'r gwaith hwn ac o chwarae rhan wrth sicrhau bod MAPPA yn parhau i esblygu, i wella ac i wasanaethu pobl Gwent gyda gonestrwydd, gwydnwch, a gofal

**Cyhoeddir pob adroddiad MAPPA yng Nghymru a Lloegr ar-lein ar:**

**www.gov.uk**